


AMAETHYDDIAETH A GOFAL ANIFEILIAID



CYFARTALEDD
CYFLOGAU
NODWEDDIADOL YN
Y DIWYDIANT HWNY
IN WALES

FFERMWYR - £28K
MILFEDDYGON - 31K

CYFANSWM
Y SWYDDI YN
Y DIWYDIANT
HWN

8,860 CYMRU
164,457 DU



A yw natur a'r amgylchedd yn bwysig i chi? Efallai bod gofalu am anifeiliaid yn agos at eich calon?

Mae'r sector amaethyddiaeth yn chwarae rôl allweddol yn economi DU gyda digonedd o swyddi yn y maes hwn, o aredig a chynhaeaf cynydu, magu neu ofalu am anifeiliaid, rheoli amgylcheddau cefn gwlad a darparu gwersi reidio.

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

Gofal Anifeiliaid

Os ydych wrth eich bodd ag anifeiliaid, pam na wnewch yrfa o hynny? O redeg cathdy, gweithio gydag ymlusgiaid neu hyfforddi ceffylau; mae gofalu anifeiliaid yn ymwneud â thrin, goruchwyllo a gofalu am anifeiliaid o bob maint, o anifeiliaid anwes domestig bychain i fywyd gwylt.

Milfeddygol

Hyfforddych fel nyrs filfeddygol, yn gofalu am anifeiliaid bob awr o'r dydd. Hefyd, gallwch astudio ymhellach i ddod yn filfeddyg.

Ceffylau

Os ydych wrth eich bodd â cheffylau ac nid oes gwahaniaeth gennych fod allan ym mhob tywydd, yna dyma'r yrfa ar eich cyfer chi! Gafaelwch yn y careiau ffrwyn a dysgwch sut i roi gwersi i eraill neu carlamwch ymlaen i reoli digwyddiadau yn yr arena. Boed y naill

ffordd neu'r llall, gallwch gael swydd yn gwneud yr hyn sy'n agos at eich calon.

Amaethyddiaeth a Chadwraeth

Maes sy'n ehangu yn y DU! Mae amaethyddiaeth yn ymwneud â ffermydd, llaethdai ac 'amaethfusnesau' - cwmnïau sy'n cyflenwi'r diwydiant â phorthiant, gwrteithiau a pheiriannau fferm. Nid yn unig mae rheoli coetiroedd neu gadwraeth amgylcheddol yn arbed y blaned, maent hefyd yn darparu datrysiadau am amgylchedd cynaliadwy, iach.

Peirianneg Tir

Diddordeb mewn cadw'r amgylchedd a sut mae pethau'n gweithio? Yna mae peirianneg tir yn ddelfrydol ar eich cyfer chi. Mae'r swyddi yn cynnwys dylunio, gweithgynhyrchu a chynnal offer amaethyddol megis dyrnwyr medi a thractorau, gan weithio i ddelwriaethau a gweithgynhyrchwyr.

8% CYNNYDD
MEWN SWYDDI
GARDDWRIAETH
A CHOEDWIGAETH
ERBYN 2030

(ffynhonnell EMSI)

Dolenni Defnyddiol

www.lantra.co.uk

Lantra, y corff dyfarnu blaenllaw ar gyfer hyfforddiant tir ac amgylcheddol

www.rspca.org.uk

RSPCA, Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals

www.forestry.gov.uk

Y Comisiwn Coedwigaeth

Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Lefel	U
Gofal Anifeiliaid (Llwybrau Anifeiliaid Fferm / Anifeiliaid Bach / Tacluso)	2	✓
Rheolaeth Anifeiliaid	3	✓
Gofal Ceffylau	2	✓
Rheolaeth Ceffylau	3	✓
Astudiaethau'r Tir - Amaethyddiaeth, Anifeiliaid a Cheffylau	1	✓
Cynorthwywyr Gofal Milfeddygol	2	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | Helo@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: B - Campws Brynbuga

